y comisiwn archwilio yng nghymru

Eitem ar yr agenda: 6

Archwiliad 2002/2003

# Hysbysu ynglŷn â Datganiadau Ariannol i'r rhai hynny sydd â Chyfrifoldeb dros Reolaeth

## Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Y TU MEWN I'R ADRODDIAD HWN


**TUDALENNAU 3-5**

### Adroddiad Cryno

- Cyflwyniad
- Cefndir
- Ymagwedd Archwilio
- Camddatganiadau nas addaswyd
- Gwendidau perthnasol mewn systemau cyfrifo a rheoli mewnol
- Agweddau ansoddol arferion cyfrifo a rhoi adroddiadau ariannol
- Materion y mae'n ofynnol o dan safonau archwilio eraill i roi adroddiad arnynt i'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth
- Materion eraill

**TUDALENNAU 6-7**

### Atodiadau

- Adroddiad drafft archwilwyr annibynnol i aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru


audit commission in wales

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | 843A2003W – Drafft |
| **Awduron:** | David Jones<br>Mark Roberts |
| **Dyddiad:** | Rhagfyr 2003 |

## *Statws ein hadroddiadau i'r Awdurdod*

*Paratoir ein hadroddiadau yng nghyd-destun Datganiad Cyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliedig a gyhoeddir gan y Comisiwn Archwilio. Paratoir yr adroddiadau gan archwilwyr a benodwyd ac fe'u cyfeirir at aelodau neu swyddogion. Fe'u paratoir at ddefnydd y corff archwiliedig yn unig, ac nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar archwilwyr i unrhyw gyfarwyddwr/aelod neu swyddog yn unigol, neu i unrhyw drydydd parti.*

## Cyflwyniad

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n cyflwyno ei sefyllfa ariannol yn deg fel y saif ar 31 Mawrth 2003 a'i incwm a'i wariant yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar y pryd hwnnw. Rydym yn gyfrifol am gynnal archwiliad a rhoi adroddiad a yw datganiadau ariannol yr Awdurdod yn cyflwyno ei sefyllfa ariannol a'i incwm a'i wariant yn deg.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi datganiad rheolaeth fewnol. Mae'n ofynnol i ni roi adroddiad lle cawn dystiolaeth yn ystod ein harchwiliad sy'n anghyson gyda'r datgeliadau a wnaed gan yr Awdurdod.

Cyflwynodd yr Awdurdod ddatganiadau ariannol drafft i ni ym mis Mehefin 2003 ac rydym bellach wedi cwblhau'r rhan fwyaf o'n harchwiliad o'r datganiadau hynny. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar elfennau allweddol sy'n codi o'n harchwiliad y mae'n rhaid i ni hysbysu'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth amdanynt, cyn rhoi barn ar y datganiadau ariannol hynny.

Dylid nodi nad yw ein harchwiliad yn ceisio sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol yn cyflwyno'ch sefyllfa ariannol yn deg, nac ychwaith sicrwydd eu bod yn gywir ym mhob agwedd. Yn y cyd-destun hwn, mabwysiadwn y cysyniad o berthnasedd. Ceisiwn wrth gynllunio a chynnal ein harchwiliad o'r cyfrifon, nodi camgymeriadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol. Camgymeriadau perthnasol yw'r rhai hynny a allai fod yn gamarweiniol i rywun sy'n darllen y datganiadau ariannol.

## Cefndir

Mae'r Datganiad Safonau Archwilio (SAS) diwygiedig, SAS 610 'Rhoi adroddiad i'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth', yn gymwys am y tro cyntaf i archwiliad o gyfrifon yr Awdurdod. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr roi adroddiad i'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth (sy'n wahanol i reolwyr) am faterion penodol cyn eu bod yn rhoi barn ar y datganiadau ariannol:

- Dylai archwilwyr hysbysu'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth o;
  - newidiadau y disgwylir eu gwneud i adroddiad yr archwilwyr;
  - camddatganiadau nas haddaswyd;
  - gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifo a rheoli mewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad;
  - barn am agweddau ansoddol ar arferion cyfrifo'r endid a rhoi adroddiadau ariannol;
  - materion y mae'n ofynnol yn benodol o dan safonau archwilio eraill i hysbysu'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth amdanynt;
  - unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad.

Rydym wedi ystyried pob un o'r meysydd a restrir uchod a nodir ein barn isod, ynghyd ag esboniadau o'r pynciau yr ydym yn ymateb iddynt yn y flwyddyn gyntaf hon.

## Ymagwedd Archwilio

Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn rhoi adroddiad i'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth am unrhyw newidiadau a gynigir i'n hadroddiad ar y datganiadau ariannol.

Ar sail ein gwaith archwilio, nid ydym yn bwriadu ar hyn o bryd gyflwyno adroddiad ansafonol ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod. Atodir adroddiad drafft yn Atodiad 1.

## Camddatganiadau nas addaswyd

Mae'n ofynnol ein bod yn rhoi adroddiad i chi o'r holl gamddatganiadau nas addaswyd heblaw am y rhai sy'n amlwg yn ddibwys. Mae camgymeriad dibwys yn gamgymeriad nad oes unrhyw ganlyniadau iddo a gaiff ei ystyried yn unigolyn neu mewn crynswth ei farnu yn ôl unrhyw feini prawf meintiol neu ansoddol.

Nodwyd nifer o gamgymeriadau bach nad oeddent yn ddibwys yn ystod ein harchwiliad. Gwnaed newidiadau priodol gan y rheolwyr ym mhob achos.

## Gwendidau perthnasol mewn systemau cyfrifo a rheoli mewnol

Mae gennym gyfrifoldebau cyfyngedig i roi adroddiad i chi ar wendidau yn y systemau cyfrifo a systemau rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod ein harchwiliad. Mae hefyd gennym ddyletswydd i roi adroddiad ar gamgymeriadau a addaswyd mewn datganiadau ariannol lle bônt yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau rheolaeth ehangach.

Ni nododd ein harchwiliad unrhyw wendidau yn y systemau cyfrifo a rheolaeth fewnol.

Dylech fod yn ymwybodol nad ydym yn darparu datganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau a all fodoli yn y systemau cyfrifo a rheolaeth fewnol nac o'r holl welliannau y gellir eu gwneud, ond aethom i'r afael â'r materion hynny yn unig a ddaeth i'n sylw o ganlyniad i'r gweithdrefnau archwilio a weithredwyd.

## Agweddau ansoddol arferion cyfrifo a rhoi adroddiad ariannol

Mae SAS 610 yn rhoi dyletswyddau penodol ar archwilwyr i roi adroddiad o'u hasesiad o agweddau ansoddol ar arferion cyfrifo a rhoi adroddiad ariannol i'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth.

Rydym wedi ystyried agweddau ansoddol arferion cyfrifo a rhoi adroddiad ariannol yr Awdurdod yn fanwl. Ni ddaeth unrhyw faterion i'n sylw y byddem yn dymuno tynnu sylw y rhai sydd â'r cyfrifoldeb am reolaeth atynt.

## Materion y mae'n ofynnol o dan safonau archwilio eraill i roi adroddiad arnynt i'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth

Mae safonau archwilio eraill yn ei gwneud yn ofynnol i ni gysylltu â chi o dan amgylchiadau penodol eraill gan gynnwys:

- lle rydym yn amau neu'n canfod twyll, hyd yn oed os nad yw'r effaith bosibl yn berthnasol i'n harchwiliad o ddatganiadau ariannol;
- lle bo anghysondeb rhwng datganiadau ariannol yr Awdurdod a gwybodaeth arall mewn dogfennau sy'n cynnwys y datganiadau ariannol.

Nid ydym wedi nodi materion o'r fath yn ystod ein harchwiliad.

## Materion eraill

Nid oes materion eraill yr hoffem eu tynnu i'ch sylw.

ATODIAD 1

# Adroddiad drafft archwilwyr annibynnol i aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau A i F a baratowyd yn unol â'r polisïau cyfrifo sy'n gymwys i awdurdodau lleol fel y'u nodir ar dudalennau X i Y.

Paratoir yr adroddiad hwn ar gyfer Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn unig yn unol â Rhan 2 Deddf y Comisiwn Archwilio 1998 ac nid ar gyfer unrhyw bwrpas arall, fel y nodir ym mharagraff 54 Datganiad Cyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliedig, a baratowyd gan y Comisiwn Archwilio.

## Priod gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid a'r Archwiliwr

Fel y'i disgrifir ar dudalen x mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r Datganiad Arfer Cymeradwy ar Gyfrifo Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2002. Sefydlir fy nghyfrifoldebau fel archwiliwr annibynnol drwy statud, Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Archwilio ac arweiniad moesegol fy mhroffesiwn.

Rhoddaf adroddiad i chi o'm barn a yw datganiadau ariannol yn cyflwyno sefyllfa ariannol y Cyngor a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn deg.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalen x yn adlewyrchu cydymffurfiad â gofynion Datganiad Arfer Cymeradwy ar Gyfrifo Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2002. Rhoddaf adroddiad os nad yw'n bodloni'r gofynion a nodir gan CIPFA/LASAAC neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson gyda gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol imi ystyried a yw'r datganiad ar reolaeth ariannol fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau, na llunio barn ar effeithiolrwydd system rheolaeth ariannol fewnol yr Awdurdod. Ni cynhaliwyd fy adolygiad ar gyfer unrhyw bwrpas sy'n cysylltiedig ag unrhyw drafodiad penodol ac ni ddylid dibynnu arno ar gyfer unrhyw bwrpas o'r fath.

Darllenaf y wybodaeth arall a gyhoeddwyd gyda'r datganiad cyfrifon ac ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy/ein hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau perthnasol gyda'r datganiad cyfrifon.

## Sail y farn archwilio

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Deddf y Comisiwn Archwilio 1998 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Archwilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â safonau archwilio perthnasol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

Mae'r archwiliad yn cynnwys archwilio ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o amcangyfrifon arwyddocaol a wnaed gan yr Awdurdod ac unrhyw farn arwyddocaol a luniwyd ganddo wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Awdurdod, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynheliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un a'u hachoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall neu gamgymeriad. Wrth lunio fy marn, gwerthusais ddigonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

### Barn

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol yn cyflwyno sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn deg ar 31 Mawrth 2003 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hwnnw.

### Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf y Comisiwn Archwilio 1998 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Archwilio.

Llofnod: …………………………………. Dyddiad:…………………………………..

Enw: ……………………………………… Cyfeiriad:………………………………….